

CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED

CYFARFOD MICROSOFT TEAMS am 7.30 p.m. 26ed o Fis Ebrill 2021

Yn Bresennol: Cyng. Delme Phillips (Cadeirydd), Cyng. Bryan Davies, Cyng. Elfed Davies, Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Eurig Rees.

Ymddiheuriadau: Cyng. Eifion Jones, Cyng. Elsbeth Page, Cyng. Phillip Jones a'r Cyng. Sir, Irfon Jones.

Materion Personol / Cyhoeddiadau - Bu'n rhaid canslo'r cyfarfod a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 19fed o Ebrill oherwydd amgylchiadau annisgwyl ac aildrefnwyd ar 26ed o Ebrill.

1	<u>Datgelu Buddianau Personol</u> Datganwyd gan Cyng. Bryan Davies a'r Cyng. Elfed Davies eu diddordeb personol mewn mater cynllunio PL/01054 - wedi'i nodi yn y gofrestr. Fe wnaeth y Cadeirydd drefnu i Ymgynghoriad Cynllunio PL/01054 gael ei symyd i ddiwedd yr agenda i alluogi y Cyng. Bryan Davies a Cyng. Elfed Davies adael y cyfarfod cyn i'r cais cynllunio gael ei drafod.
2	<u>Cadarnhau'r Cofnodion - 16.03.21</u> Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16.03.21 yn gofnod cywir gan y Cyng. Julian Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Bryan Davies.
3.	<u>Materion yn Codi o'r Cofnodion</u>
a.	<u>Gwasanaeth Bws 460</u> - y mater yn parhau - Mae'r Clerc i yn gwneud holiadur er mwyn cofnodi'r galw am gwasanaeth bws rheolaidd drwy Hermon.
b.	<u>Safle Ail-gylchu</u> -y mater yn parhau - Dim datblygiad newydd ar hyn o bryd.
c.	<u>Cylch Meithrin Bro Elfed</u> - Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Elfed Davies i'r Cyngor am y gwaith sydd yn mynd yn ei flaen er mwyn paratoi agor Cylch Meithrin Bro Elfed. Mae'r pwyllgor wedi bod yn gweithio i baratoi'r neuadd a'r iard ahefyd gofalu am yr ochr ariannol.Mae hysbysebion wedi'u gosod ar gyfer staff/arweinydd. Y nod yw i agor y Cylch Meithrin Bro Elfed ym Mis Medi 2021 i.e. ar ôl gwyliau Hâf yr ysgolion.
d.	<u>Cyfleusterau Cyhoeddus</u> - Cafwyd ymateb i ymholiad y Cyngor. Ni thelir y gofalwr i weithio ar benwythnosau a gwyliau banc. Er budd hylendid mae'r prif floc ar gau i'r cyhoedd dros penwythnosau a gwyliau banc, gyda toiled i'r anabl ar gael i'r sawl sydd yn meddu ar allwedd radar. Oherwydd pandemig COVID-19 mae'r toiledau anabl a'r toiledau cyhoeddus i gyd ar gau yn ystod yr amseroedd nad oes gofalwr ar gael i'w glanhau. Penderfynwyd gan y Cyngor bod yn bwysig i'r cyhoedd cael gywbodaeth am yr adegau mae'r cyfleusterau i gyd ar gau. Mae'r Clerc i gysylltu â Cyngor Sir Gaerfyrddin am arwyddion dilys â hefyd holi'r Cyngor Sir i ddiweddarau ei tudalen gwefan priodol gyda'r amseri i ddangos pryd mae'r cyfleusterau ar agor/ar gau. Gellir prynu allwedd radar gan y Cyngor Sir gan bobl sydd wedi'u cofrestru'n anabl a'r rhai â chyflyrau meddygol sy'n gofyn am fynediad brys i gyfleusterau toiled. Derbyniodd y Cyng. Elfed Davies allwedd sbâr ar gyfer yr adeilad i alluogi cynghorwyr i archwilio'r adeilad o bryd i'w gilydd.
4.	<u>Gohebiaeth</u> <u>Mae copiau o'r holl e-byst perthnasol a dderbyniwyd wedi'u hanfon at Gynghorwyr cyn y cyfarfod.</u>
a.	Derbyniwyd gohebiaeth drwy e-bost oddi wrth preswylwr yn gofyn am bin ysbwriel gael ei osod ger arhosfan bysiau ar yr ochr chwith ger y bont yng Nghwmdud. Trafodwyd hefyd y mater o diffyg biniau ysbwriel ym mhentref Cynwyl Elfed. Penderfynwyd gan y Cyngor i'r clerch gysylltu â Cyngor Sir Caerfyrddin ynglyn a'i polisi biniau sbwriel mewn mannau cyhoeddus a'i gofyn i osod biniau sbwriel yn y llefydd a nodwyd. Cyfarwyddodd y Cyngor y Clerc i ddiolch i'r gohebydd am ddod â'r mater i sylw'r Cyngor ar yr un pryd yn rhoi gwybod iddynt am y camau a gymerwyd.

<p>5(a)</p>	<p><u>Taliadau a Chyllud</u> Cyflog y Clerc - Mis Mawrth 2021 £209.90 H.M.R.C. £157.60</p> <p>Cytunodd y Cyngor i'r taliadau uchod gael eu gwneud.</p> <p>Anfonebau a dderbyniwyd ar ôl cyfarfod Mis Mawrth a dalwyd o flaen 31.03.2021 Cyngor Sir Caerfyrddin - Cyfleusterau Cyhoeddus - £1,834.80 Cyngor Sir Caerfyrddin - Goleuadau Stryd - £2,021.18</p>
<p>6</p>	<p><u>Cyfrifon</u> Gweler y cyfrifon atodedig ar gyfer 1/4 pedwar ar ddiwedd y dydd 31.03.2021</p> <p>Trafodwyd y cyfrifon. Cwestiynwyd y nifer o sieciau a ysgrifennwyd ond na chawsant eu prosesu cyn 31.03.2021. Ymatebodd y Clerc mae ar y cyfan oedi o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19 oedd yn gyfrifol am hyn. Rhaid ysgrifennu sieciau a'u postio i'r unigolion (llofnodwyr banc) er mwyn arwyddo cyn postio ymlaen i'r derbynwyr. Ar yr adeg pan oedd cyfarfodydd yn digwydd yn y neuadd ysgrifennwyd a llofnodwyd sieciau ar yr un noswaith, byddent fel rheol yn cael eu danfon ymlaen i'r pobl y'w talu o fewn wythnos i'r cyfarfod.</p>
<p>7</p>	<p><u>Materion Priffyrdd</u></p> <p>a. Ffynnon Henry - Gwyneb y ffordd mewn cyflwr difrifol o wael. b. Gorllwyn - i Pum Heol - Tyllau yn y ffordd yn broblem difrifol c. Capel Hermon i Waunolau - Cwmp yn y ffordd yn creu rhych drwy Hermon a gratiau rhydd yn creu peryg. d. Heol Blaenycod, Wernant-Clunbach - Gwyneb y ffordd mewn cyflwr difrifol o wael. e. Hermon - tu allan i Blue Bell, Glennydd a'r Swyddfa Bost -2/3 o'r cerrig palmant yn rhydd. f. Esgair - wal y bont wedi ei fwrw gan achosi difrod i'r wal. g. Esgair - man aros - Malurion cafodd ei gadael yn dilyn gwaith ar y ffordd yn dal i fod yn broblem. h. Ar y ffordd mewn i Cynwyl Elfed o gyfeiriad Hermon - Arwydd 30 mya wedi cael difrod. Angen braced siap L ar y postyn er mwyn osgoi hyn rhag digwydd eto.</p>
<p>8</p>	<p><u>Unrhyw Mater Arall</u></p> <p>a. <u>Cyfarfodydd y Cyngor</u> - Trafodwyd posibilrwydd dychwelyd i gwrdd yn y neuadd gwyneb i wyneb naw bod Llywodraeth Cymru yn dechrau codi rhai cyfyngiadau yn ystod mis Mai. Penderfyniwyd gan y Cyngor i'r Clerc gysylltu ag Un Llais Cymru am arweiniad cyn trefnu cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned. b. <u>Cwyn am y Cyfleusterau Cyhoeddus</u>-Dywedodd y Cyng. Julian Evans ei fod wedi derbyn cwyn ynglyn a pobl yn dwyno llawr y cyfleusterau wrth mynd i mewn pan yn gwisgo esgudiau mwdlyd (wellingtons). Penderfynwyd i'r Cynghorwyr siarad a gofalwr y cyfleusterau i drafod a fyddau roi mat wrth y mynedfa yn gwneud gwahaniaeth.</p>
<p>9</p>	<p><u>Cynllunio</u> Ymgynghoriad Cynllunio PL/01508 - Adeiladu Bloc Stablau yn lle yr un presennol - Troedyrhyw, Cwmduad SA33 6XN Trafodwyd y mater a phenderfyniwyd bod y Cyngor yn cefnogi Cais PL/01508</p> <p>Trafodwyd Cais PL/01504-Estyniad uwch ben yr Ystafell Haul presennol-Pant yr Onnen, Hermon, SA33 6SR. Trafodwyd y mater a phenderfyniwyd bod y Cyngor cefnogi cais PL/01504</p>
<p>10</p>	<p><u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u> <u>Cyfarfod Blynnyddol</u> Nos Lun 17fed o fis Mai 2021 am 19.00 awr i'w ddilyn gan gyfarfod mis Mai.</p> <p>Daeth y cyfarfod i ben am 21.00 awr</p>

Arwyddwyd.....

Dyddiad.....